



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru**
**Natural
Resources
Wales**

Ein cyf/Our ref:
Eich cyf/Your ref:

Teipiwch y cyfeiriad lleol yma/
Llys Cantref, Brecon Road, Y Fenni, NP7 7AX

Ebost/Email:
andrea.davies@naturalresourceswales.gov.uk
Ffôn/Phone: 01873 737008

Is-adran Chwaraeon Hamdden yn yr Awyr Agored a
Thirwedd
Cyfoeth Naturiol Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3UR

1 Hydref 2014

Annwyl Syr,

**Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru:
Gwella argaeledd rhandiroedd a gerddi cymunedol**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn dwyn ynghyd waith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru, yn ogystal â rhai o swyddogaethau Llywodraeth Cymru. Ein diben yw sicrhau bod adnoddau amgylcheddol a naturiol Cymru'n cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy, nawr ac yn y dyfodol.

Mae Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2012 yn gosod dyletswyddau ar Gyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â mynediad a hamdden, safleoedd hanesyddol a lles - yn benodol iechyd a lles cymdeithasol unigolion a chymunedau, a lles economaidd unigolion, busnesau a chymunedau. Rydym yn ymateb i'r ymgynghoriad mewn perthynas â'r dyletswyddau penodol hyn.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n croesawu'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad a fyddai'n arwain at amrywiaeth eang o fuddiannau i bobl a chymunedau Cymru - iechyd a lles, cydlyniant a balchder cymunedol, datblygu addysg a sgiliau, menter gymdeithasol. Mae tyfu yn y gymuned yn weithgaredd y gall pobl o bob cefndir, oedran a gallu cymryd rhan ynddo - lle bynnag y maent yn byw. Ceir crynodeb o'n sylwadau yn y tabl atodedig.

Rydym eisoes yn gweithio gyda thwyfyr bwyd yn y gymuned a Ffederasiwn Ffermydd Trefol a Gerddi Cymunedol yn ein cynllun Coetiroedd a Chi, a ddefnyddir gennym i reoli a hyrwyddo mynediad i'r cyhoedd i Ystad Coetiroedd Llywodraeth Cymru (gan gyflawni amcanion strategol Llywodraeth Cymru), tra'n sicrhau lefelau uchel o ddiogelwch i'r cyhoedd mewn coetiroedd gweithredol. Mae'r cynllun yn agored i grwpiau, mentrau cymdeithasol ac unigolion a gellir gwneud cynigion unrhyw bryd. Gall cyrff cyhoeddus eraill sy'n berchen ar dir sylweddoli y byddai mabwysiadu cynllun 'mynediad i dir' tebyg o gymorth wrth wneud penderfyniadau a rheoli risg. Ceir crynodeb o'r gwaith hwn yn Atodiad 1 o'n ymateb.

Diolch am roi cyfle inni wneud sylwadau ar y cynigion hyn.

Yn gywir,

Rhian Jardine
Pennaeth Cymunedau Cynaliadwy